# Taflen Cynllunio Gwers

| **Blwyddyn / CA:** | Awgrym yn unig: Blwyddyn 9 |
|---|---|

| | |
|---|---|
| **Nod y wers:** | Byddant yn gallu adnabod pa nodweddion sy'n cael eu defnyddio er mwyn perswadio yn y testun dan sylw a beth yw eu heffaith ar y darllenydd. |
| **Rhaglen Astudio (Darllen) CA3/CA4:** | Bl9 Strategaethau Darllen - "defnyddio'u gwybodaeth am gynnwys a chyd destun brawddegau a thestun cyfan"<br>Bl9 Darllen a deall - **"cymharu'n ofalus gan dynnu sylw at yr hyn sy'n debyg a'r hyn sy'n wahanol mewn testunau pytiog e.e. o ran bwriad, cynulleidfa, iaith a chyflwyniad"** ✣ |

| **Camau'r wers:** | |
|---|---|
| **Dysgu: Beth fydd y dysgwyr yn ei wneud?** | **Addysgu: Beth fydd yr athro yn ei wneud?** |
| Sbardun: Edrych ar y lluniau o bethau sy'n cythruddo pobl ar gyflwyniad Powerpoint (gellir cael cerddoriaeth yn gefndir), nodi pa un o'r lluniau hyn sy'n eu cythruddo nhw (o'r mwyaf i'r lleiaf.) Y dysgwyr i nodi ar bostiau bach | Yr athro i holi ac annog – pam wyt ti'n dweud hyn? Pam dy fod wedi dewis y llun hwn i'w roi ar frig dy restr?<br><br>Cyflwyno'r darn darllen a phroblem Mrs Williams yn ogystal â nodi beth yw prif nod y wers<br><br>Cyflwyno'r het wen iddyn nhw(yn ddelfrydol bydd y disgyblion yn gwybod beth yw pwrpas yr hetiau cyn y wers – gweler y daflen "Ystyr Lliwiau Hetiau De Bono" |
| **Datblygu'r wers:** | |

# Taflen Cynllunio Gwers

| | |
|---|---|
| Y dysgwyr i wisgo'r het wen a nodi pa ffeithiau/wybodaeth sydd ganddyn nhw ar ôl darllen y darn (beth yw'r broblem, pwy sy'n ysgrifennu, at bwy ayyb – **Tasg Adalw Gwybodaeth**<br><br>Anodi'r nodweddion/yr eirfa yn y llythyr sy'n cael eu defnyddio'n fwriadol er mwyn dangos nad yw Mrs Williams yn hapus. (*Gall hon fod yn dasg Wordwall ac yn rhyngweithiol gyda'r dosbarth cyfan yn defnyddio gliniaduron, e-lechi neu hyd yn oed yn yr ystafell gyfrifiaduron)* | Yr athro i oruchwylio'r disgyblion a chynnig anogaeth a phrocio bob hyn a hyn. |
| Y dysgwyr i gyfnewid eu taflenni ac i nodi a ydyn nhw'n cytuno neu'n anghytuno gyda'r partner drwy roi tic neu groes uwchben yr ymadrodd neu air. | Defnyddio'r rhaglen Wordwall- templed labelu diagram er mwyn anodi'r dasg gyda'r dosbarth neu gellir gwneud hyn ar y Powerpoint – gofyn i'r dysgwyr ddod i anodi |
| Ymateb i'r cwestiynau ar yr olwyn gwestiynau ar Wordwall | Defnyddio'r olwyn gwestiynau ar Wordwall **(gweithgaredd am ddim)** er mwyn holi cwestiynau'n seiliedig ar y dasg anodi.<br>*(Cwestiynau enghreifftiol –Dewis unrhyw air wedi'i anodi a dywed pam wyt ti wedi anodi'r gair yna? Pa air sydd fwyaf effeithiol? Pam mae'r awdur wedi defnyddio'r gair hwn yn dy farn di? A oes cysylltiad rhwng y geiriau? Pa nodwedd arddull sy'n cael ei ddefnyddio amlaf?* |
| Y disgyblion i wisgo'r het goch – a nodi ar y daflen beth yn union yw teimladau Mrs. Williams wrth ysgrifennu'r llythyr a beth yw teimladau'r Cynghorydd wrth ddarllen y llythyr<br><br>Adborth Dosbarth Cyfan | Cylchu, holi, ymestyn y goreuon drwy gwestiynu pwrpasol.<br><br>Defnyddio'r hetiau ar y powerpoint i gasglu syniadau'r dosbarth. Holi cwestiynau tebyg i pam wyt ti'n dweud hyn? Beth sy'n dangos hyn? Ydy'r teimladau'n debyg i'w gilydd? Pa nodwedd sy'n cael yr effaith yma arnyn nhw? |
| **Clo y wers:** | |
| Y disgyblion i wisgo het werdd y Cynghorydd a dechrau cynllunio beth fydd ymateb y cynghorydd i lythyr Mrs Williams – tasg i'w pharhau yn ystod y wers nesaf neu i'w chwblhau fel gwaith cartref.<br><br>Cyn gadael – y disgyblion i nodi ar bostiau bach dair nodwedd maen nhw'n credu sy'n effeithiol wrth berswadio pobl | Ail ymweld â nod y wers – mesur cynnydd y wers ar y dysgwyr drwy ddod i gasgliad ynglŷn â'r nodweddion sy'n llwyddo i bersadio pobl a'u heffaith**.** |
| **Adnoddau:** | |
| Lluniau sy'n cythruddo ar Powerpoint<br>Wordwall<br>Hysbyseb Baw Ci<br>Taflen Hetiau De Bono | |
| **Deilliannau Dysgu:** | |
| Drwy gwestiynu'r disgyblion yn ystod ac yng nghlo y wers gellir mesur y cynnydd a wnaed o safbwynt eu hadnabyddiaeth o'r nodweddion sy'n perswadio yn y testun dan sylw a pha effaith maen nhw'n eu cael ar y gynulleidfa e.e math o eiriau, arddull / euogrwydd, cywilydd, dicter ayyb | |


Ysgol Botwnnog
Ysgol Dyffryn Ogwen
Ysgol Tryfan
Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government